# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd trwy Fideo Gynhadledd ddydd Iau, 21 Ionawr 2021 am 10.00am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Rachel Flynn, Tina Jones, Merfyn Parry, Anton Sampson, Peter Scott, Graham Timms (Is-Gadeirydd), Cheryl Williams a Huw Williams (Cadeirydd)

**Aelodau'r Cabinet** – Y Cynghorydd Hugh Evans – Arweinydd y Cyngor ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill Aelod Arweiniol Cyllid ac Effeithlonrwydd a'r Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd.

**Arsylwyr –** Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Meirick Lloyd Davies, Alan James, Barry Mellor a Melvyn Mile.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB), Pennaeth Cyllid ac Eiddo (SG), Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (EJ), Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd (MJ), Prif Beiriannydd - Rheoli Traffig (PL), Rheolwr Cymorth Busnes (PB), Swyddog Cymorth Busnes (Contractau a Pherfformiad) (RT), Swyddog Datblygu Economaidd a Busnes (CC), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), Cydlynydd Craffu (RE) a Gweinyddwyr Pwyllgor (SJ a SLW).

**Rheolwr Datblygu Busnes Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych** - Graham Kendall

Roedd y Cadeirydd am ddweud ei fod yn meddwl am y rhai yr effeithiwyd arnynt yn y llifogydd diweddar ac Estyn ei ddymuniadau iddynt. Diolchodd i'r holl wasanaethau brys a phawb a oedd wedi cynnig cymorth i'r rhai yr effeithiwyd arnynt.

Croesawodd hefyd y Cynghorydd Peter Scott i'r cyfarfod yn dilyn ei benodiad diweddar fel aelod o'r Pwyllgor.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Glenn Swingler.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2020.

Eitem 5 - Rheoli Risg Llifogydd ledled Sir Ddinbych – Hysbyswyd yr Aelodau bod atodiad 5 i'r Rhaglen Waith Craffu yn cynnwys cylch gorchwyl y grŵp tasg a gorffen.

***PENDERFYNWYD -*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2020 fel cofnod cywir.*

**Oherwydd problemau technegol, cafodd y cyfarfod ei atal am 10.20. a.m.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 10.30 a.m.**

## 5 RHAGLEN ADFYWIO’R RHYL A'I DREFN LLYWODRAETHU

Rhoddodd yr Arweinydd y Cynghorydd Hugh Evans wybodaeth gefndirol i'r aelodau y tu ôl i'r rhaglen adfywio yn y Rhyl. Cadarnhawyd bod gan y Rhyl ddwy o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Oherwydd anawsterau technegol collwyd cysylltiad fideo a sain â'r Arweinydd. Aeth Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Parth Cyhoeddus ymlaen i arwain aelodau drwy'r adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Pwysleisiwyd i'r aelodau fod angen adfywio'r Rhyl fel ardal. Pwysleisiwyd bod swyddogion wedi nodi bod pob tref a ward wedi wynebu cyfnod anodd a bod angen cymorth arnynt.

Yn yr adroddiad roedd diweddariad o'r trefniadau ynghylch blaenoriaeth gweledigaeth canol y dref ac roedd y trefniadau llywodraethu wedi'u cynnwys. Roedd Bwrdd Rhaglen Adfywio'r Rhyl wedi'i sefydlu. Cadarnhawyd bod Grŵp Ardal Aelodau (MAG) y Rhyl wedi'u cynghori am yr holl ddatblygiadau a bod yna Grŵp Cyfeirio'r Rhyl a oedd yn cael ei fynychu gan Gynghorwyr y Rhyl, aelodau Cyngor Tref y Rhyl a'r AC a'r AS lleol. Pwysleisiwyd bod llawer o waith wedi'i gwblhau yn y Rhyl. Gan gynnwys gwaith ar y promenâd, yr harbwr a'r gwaith parhaus yng Nghei'r Marina. Cadarnhawyd mai un o'r meysydd blaenoriaeth oedd canolbwyntio ar ganol y dref, tra byddai un arall yn canolbwyntio ar adfywio ar gyfer pobl a thrigolion y Rhyl. Cafwyd cadarnhad bod Bwrdd Datblygu Cymuned y Rhyl wedi'i sefydlu gyda phartneriaid fel iechyd a'r heddlu.

Rhoddwyd mwy o fanylion i'r Aelodau gan y Swyddog Datblygu Economaidd a Busnes. Roedd y ddogfen weledigaeth a gynhwyswyd fel atodiad i'r adroddiad wedi deillio o 18 mis o waith ac fe'i cymeradwywyd gan y Cabinet ar ddiwedd 2019. Y gobaith oedd y byddai'n rhoi arweiniad ar y weledigaeth ar gyfer canol y dref a'i adfywio.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i godi cwestiynau a thrafodwyd gwahanol agweddau ar yr adroddiad gyda'r swyddogion a oedd yn bresennol. Roedd prif feysydd trafod yn canolbwyntio ar y canlynol -

- Nodyn Cynghori Technegol (TAN) 15 oedd cyngor Llywodraeth Cymru (LlC) mewn perthynas â datblygiadau o ran llifogydd. Tynnwyd sylw at y ffaith bod nifer o ardaloedd yn y Rhyl wedi'u nodi fel ardaloedd o lifogydd posibl. Roedd angen i ddatblygiadau yn yr ardaloedd llifogydd roi sylw arbennig i sut y byddent yn mynd i'r afael â'r problemau llifogydd ar y safle datblygu. Cadarnhawyd y byddai rhannau o'r Rhyl yn dal i aros ar y mapiau perygl llifogydd. Roedd nifer o gynlluniau yn y Rhyl i fynd i'r afael â phryderon llifogydd wedi dechrau. Roedd y canllawiau TAN 15 yn nodi y dylid hyrwyddo datblygu adfywio gyda phob agwedd ar y datblygiad yn cael ei asesu.
- Dangosodd Atodiad 2 i'r adroddiad fod y gwaith adfywio yn y Rhyl wedi'i rannu'n bum sector gwahanol. Un o'r sectorau a nodwyd oedd mynediad a symudiad. Roedd hyn edrych ar ac yn mynd i'r afael â chludiant a pharcio yn y Rhyl0} Clywodd yr Aelodau fod nifer o brosiectau wedi'u cynnwys i asesu pryderon. Pwysleisiwyd bod gwaith wedi dechrau i edrych ar ddatblygiadau ar gyfer cludiant yn y Rhyl gan gynnwys gwaith gyda'r llwybrau teithio llesol, llwybrau beicio a phwyntiau gwefru ceir trydan. Byddai'r gwaith yn agwedd hirdymor o'r prosiect adfywio.
- Pwysleisiwyd nad oedd aelodau wedi'u heithrio o'r byrddau sy'n gweithio ar y prosiect adfywio. Croesawodd swyddogion adborth a mewnbwn gan aelodau a chynghorwyr y Rhyl. Clywodd yr Aelodau fod Bwrdd Rhaglen Adfywio'r Rhyl yn fforwm technegol a oedd yn sicrhau bod prosiectau y cytunwyd arnynt yn gydgysylltiedig ac yn gweithio gyda'i gilydd. Teimlwyd mai bwrdd dan arweiniad swyddogion fyddai'n gweddu orau gydag unrhyw wybodaeth wedyn yn cael ei chyfleu gyda'r byrddau a'r grwpiau eraill. Roedd aelodau Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl wedi pwysleisio awydd i gael eu cynnwys ar y byrddau sy'n gweithio ar y prosiect Adfywio. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Parth Cyhoeddus y byddai'n rhoi adborth ar bryderon aelodau Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl ynghylch aelodaeth y bwrdd. Awgrymwyd y dylid mynd ag adroddiad i Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl i drafod ymhellach.
- Cadarnhaodd swyddogion fod ymchwil wedi'i wneud ar brosiectau adfywio eraill a gwblhawyd gan awdurdodau lleol eraill. Roedd swyddogion Bwrdd Rhaglen Adfywio'r Rhyl wedi gweithio gydag ymgynghorwyr a fu'n ymwneud â datblygiadau adfywio eraill yn y DU.
- Cadarnhawyd y cydymffurfir â pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor fel rhan o'r strategaeth farchnata.
- Cafwyd cadarnhad bod gan Sir Ddinbych ymrwymiad i gynorthwyo a chefnogi'r digartref. Roedd nifer o brosiectau a gwaith i fynd i'r afael â'r anghenion llety dros dro a llety argyfwng wedi dechrau. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'n bosibl cynnwys terfyn amser ar y caniatâd cynllunio ar gyfer yr uned ddigartrefedd newydd arfaethedig yn Nwyrain y Rhyl er mwyn osgoi i'r eiddo rhag dod yn dŷ arall amlfeddiannaeth mewn amser. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Parth Cyhoeddus y byddai'n trafod gyda Chadeirydd Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl i gynnwys adroddiad ar ddigartrefedd a sut y gallai'r awdurdod lleol weithio gyda'r Cyngor Tref i geisio eu cynnwys mewn cynlluniau i fynd i'r afael â'r broblem,

ar y rhaglen gwaith i’r dyfodol ar gyfer aelodau’r Grŵp Ardal Aelodau ei drafod.

- Trafododd yr Aelodau'r angen am barciau cartrefi modur yn y Rhyl a Sir Ddinbych yn gyffredinol. Teimlwyd y byddai angen posibl am safleoedd parcio ar gyfer unigolion sy'n ymweld â'r ardal, yn enwedig ar ôl COVID-19. Cadarnhaodd y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad y byddai'n fuddiol cael trafodaethau gyda swyddogion o adrannau eraill i ymchwilio i ddatblygiadau posibl. Awgrymodd y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad i'r aelodau ei fod yn archwilio'r darpariaethau sydd yna ar hyn o bryd i’w gynnwys mewn adroddiad i’r swyddogaeth graffu yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr adroddiad a’r ymateb manwl i gwestiynau a phryderon yr aelodau. Nodwyd cais yr aelodau i ganmol y gwaith a gwblhawyd hyd yma ar brosiect adfywio'r Rhyl. Yn dilyn y drafodaeth,

***PENDERFYNWYD gan y Pwyllgor: yn amodol ar y sylwadau uchod -***

***i). derbyn yr adroddiad ar Raglen Adfywio’r Rhyl a Llywodraethu a nodi ei gynnwys;***

***ii). bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Economi a'r Parth Cyhoeddus yn cysylltu â Chadeirydd Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl i gynnwys adroddiad ar y ddarpariaeth llety i'r digartref yn y Rhyl a sut y gallai'r Cyngor weithio gyda'r Cyngor Tref i fynd i'r afael â'r angen, ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Grŵp Ardal Aelodau;***

***iii). bod Pennaeth Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad yn trafod gyda swyddogion eraill y ddarpariaeth bosibl yn y dyfodol ar gyfer cyfleusterau parcio cartrefi modur yn y Rhyl a Sir Ddinbych yn gyffredinol, a***

***iv). cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn y dyfodol o leiaf bob blwyddyn am ddatblygu a chyflawni'r Rhaglen Adfywio.***

## 6 SYSTEM DARIFFAU MAES PARCIO A CHYNLLUNIAU PARCIO TRIGOLION

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd, y Cynghorydd Brian Jones yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am system tariff presennol y meysydd parcio a'r polisi ar gyfer cynlluniau preswyl. Atgoffwyd yr Aelodau bod adroddiad tebyg wedi'i gyflwyno'n flaenorol yn 2015. Darparwyd rhagor o fanylion gan y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd. Esboniwyd bod Sir Ddinbych wedi mabwysiadu system codi tâl unffurf ar draws y Sir.

Roedd datblygu cynllun peilot arfaethedig yn Llangollen yn rhan o drefniadau rheoli traffig a pharcio ehangach ar gyfer y dref, a oedd yn cynnwys trafodaethau ynghylch gwahanol daliadau parcio rhwng meysydd parcio. Codwyd cwestiwn ynghylch a ellid mabwysiadu tâl uwch am barcio mewn meysydd parcio canolog a chodi tâl is am feysydd parcio ar yr ymylon. Cadarnhawyd nad oedd y polisi presennol yn caniatáu'r dull hwn o godi tâl. Cadarnhaodd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd fod yn rhaid i'r incwm cyffredinol ar gyfer tref benodol fod mor niwtral o ran cost â phosibl. Nod y cynllun peilot arfaethedig oedd caniatáu mwy o hyblygrwydd ar gyfer taliadau amrywiol mewn tref i gynorthwyo llif traffig ac

argaeledd mannau. Pwysleisiodd swyddogion fod y cynnig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar gyfer sylwadau a chytundeb i fwrw ymlaen â'r cynllun peilot. Cafwyd cadarnhad y byddai adroddiad diweddaru ac unrhyw ganfyddiadau'n cael eu cyflwyno i'r pwyllgor ar ôl monitro am gyfnod o 12 mis.

Cyflwynodd y Cynghorydd Graham Timms hanes byr i'r aelodau o'r problemau a gafwyd yn Llangollen yn ymwneud â pharcio ceir. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai meysydd parcio Llangollen a greodd yr ail incwm mwyaf o feysydd parcio yn y Sir. Teimlwyd trwy amrywio’r gost o barcio yn y dref, byddai’r ddarpariaeth ar gael a fyddai'n diwallu ar gyfer anghenion pawb, e.e. trigolion, cymudwyr a busnesau lleol. Tynnodd y Cynghorydd Melvyn Mile sylw'r aelodau at y gwaith a oedd wedi dechrau yn Llangollen i amlygu materion a oedd yn bwysig i bob unigolyn ac ymwelydd.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i godi cwestiynau a thrafodwyd gwahanol agweddau o’r cynllun peilot gyda'r swyddogion a’r Aelod Arweiniol. Roedd prif feysydd trafod yn canolbwyntio ar y canlynol -

- Roedd y system trwyddedau parcio presennol ar gyfer parcio ym meysydd parcio'r Cyngor yn dal i fodoli i unigolion eu prynu. Byddai swyddogion yn penderfynu pa faes parcio oedd fwyaf addas i ddeiliaid trwyddedau ei ddefnyddio.
- Rhoddwyd sicrwydd bod yr incwm a gynhyrchwyd o feysydd parcio wedi'i ail-fuddsoddi mewn meysydd parcio neu swyddogaethau sy'n gysylltiedig â diogelwch ar y ffyrdd yn Sir Ddinbych. Cadarnhawyd bod cyfathrebu wedi digwydd â Phriffyrdd i werthuso cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer pob maes parcio yn Sir Ddinbych.
- Dywedodd swyddogion nad oeddent wedi cael gwybod am unrhyw faterion diogelwch mewn meysydd parcio yn Llangollen. Roedd diogelwch yn ystyriaeth bwysig i feysydd parcio. Byddai'r gwaith o fonitro diogelwch meysydd parcio yn parhau.
- Cafwyd cadarnhad mai yn 2016 y codwyd taliadau parcio ceir yn y Sir ddiwethaf. Er nad oedd unrhyw gynlluniau penodol ar hyn o bryd i gynyddu taliadau parcio, diwygiwyd ffioedd a thaliadau yn flynyddol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr a'r atebion a roddwyd i bryderon yr aelodau.

Yn dilyn trafodaeth,

***PENDERFYNWYD gan y Pwyllgor, yn amodol ar y sylwadau uchod***

*i).* *argymell y dylid amrywio'r cynllun peilot yn Llangollen lle byddai tariffau meysydd parcio yn cael eu hamrywio yn y gwahanol feysydd parcio yn y dref ar y sail, lle y bo'n bosibl, na fyddai unrhyw golled net yn incwm meysydd parcio o'r holl feysydd parcio yng nghanol tref Llangollen;*

*ii).* *bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor, tua 15 mis ar ôl i'r Cynllun gael ei weithredu, ar ei effeithiolrwydd ac unrhyw wersi a ddysgwyd o'r cynllun peilot ar gyfer cynlluniau tebyg yn y dyfodol; a*

*iii).* *chadarnhau ei fod wedi darllen yr Asesiad o Effaith ar Les, ei ddeall a’i ystyried fel rhan o’i ystyriaethau.*

**Ar y pwynt hwn (12.05 p.m.) cymerodd yr aelodau egwyl o 20 munud am luniaeth.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 12.25 p.m.**

## 7 CREDYD CYNHWYSOL

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan gynnwys Graham Kendall, o Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych ar gyfer y drafodaeth ar Gredyd Cynhwysol.

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Effeithlonrwydd, yr adroddiad Credyd Cynhwysol (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Tynnwyd sylw at y ffaith bod y Pwyllgor wedi gofyn yn wreiddiol am yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) er mwyn adrodd ar symud y swp terfynol o dderbynwyr i Gredyd Cynhwysol. Roedd pandemig Covid-19 wedi effeithio ar y broses hon ac o ganlyniad roedd manylion wedi'u cynnwys yn y papurau ar gyfer sylwadau'r aelodau. Cyfeiriwyd at y ffigurau data yn adlewyrchu'r pandemig presennol. Roedd nifer yr hawlwyr wedi cynyddu oherwydd ffactorau allan o reolaeth unigolion.

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo gyflwyniad byr ar sut yr oedd Cyngor Sir Ddinbych yn cefnogi preswylwyr mewn perthynas â CC a chymorth cysylltiedig. Dywedwyd bod Credyd Cynhwysol wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn oherwydd y pandemig yn bennaf. Roedd y cynnydd yn y niferoedd yn cynnig sicrwydd bod trigolion Sir Ddinbych wedi cael cymorth ariannol. Oherwydd y cynnydd yn nifer y ceisiadau am Gredyd Cynhwysol gwelwyd effaith ar gyllid Cyngor Sir Ddinbych (CSDd). Gweinyddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau y Credyd Cynhwysol, gweinyddwyd budd-daliadau eraill fel Budd-dal Tai gan CSDd. Esboniwyd i'r aelodau fod y grant gweinyddu Budd-dal Tai wedi lleihau yn unol â'r symudiad i Gredyd Cynhwysol. Nodwyd er bod y cyllid wedi lleihau roedd y llwyth gwaith wedi aros yr un fath. Tynnwyd sylw at y ffaith bod Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor wedi'i gynnig i breswylwyr cymwys, a bod y nifer a oedd wedi manteisio arno wedi cynyddu dros y misoedd diwethaf. Roedd hyn wedi deillio o bandemig Covid-19; pwysleisiwyd y byddai'r adferiad yn araf. Hysbyswyd yr Aelodau bod grant arian parod i gynorthwyo'r effaith ariannol oherwydd cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor wedi'i sicrhau ar gyfer 2020/21, ond nid oedd yn glir eto a fyddai unrhyw gymorth ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Roedd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo am ddiolch i swyddogion a Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych am yr holl waith caled a oedd wedi'i wneud i'r newid llyfn i Gredyd Cynhwysol, yn enwedig yn ystod y misoedd anodd.

Aeth y Rheolwr Cymorth Busnes i'r afael â nifer o bryderon yr oedd yr aelodau wedi'u codi cyn y cyfarfod. Esboniwyd i'r aelodau yr anhawster o ran darparu ffigurau cywir ynghylch nifer yr unigolion a oedd yn dal i gael budd-daliadau etifeddol. Roedd yn rhaid chwilio am y data ar gyfer y cwsmeriaid hynny o ystod eang o wahanol fudd-daliadau nad oedd gan CSDd fynediad at y wybodaeth.
Cadarnhawyd bod nifer yr hawlwyr Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor wedi cynyddu 2.8%, a bod cynnydd o 10.95% wedi bod yn nifer yr ymgeiswyr am brydau ysgol am ddim rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd 2020. Darparodd y Swyddog Cymorth Busnes gyd-destun i'r aelodau ar gyfer y data yn atodiad 1 ac atodiad 2. Pwysleisiwyd bod swyddogion yn monitro'r ystadegau'n rheolaidd bob mis er mwyn

sicrhau bod ymchwiliad ac ymyrraeth bellach yn digwydd cyn gynted ag y bo angen. Atgoffwyd yr Aelodau bod nifer o fudd-daliadau a mesurau ariannol brys ar waith ar hyn o bryd y gallai preswylwyr fod yn gymwys i'w hawlio, a bod gan bob un ohonynt ofynion meini prawf gwahanol.

Roedd Graham Kendall - Roedd Rheolwr Datblygu Busnes Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych yn adleisio meddyliau a sylwadau'r Aelod Arweiniol a swyddogion, gan ganmol bod y dull o ymdrin â Chredyd Cynhwysol y dull cywir. Roedd wedi rhoi'r wybodaeth a'r partneriaethau i unigolion allu cysylltu â nhw am gymorth. Tynnwyd sylw at y ffaith bod 1235 o hawliadau newydd wedi'u derbyn yn ystod y cyfnod clo ar gyfer Credyd Cynhwysol. Roedd y berthynas waith agos barhaus â CSDd wedi bod yn amhrisiadwy i swyddogion Cyngor Ar Bopeth Sir Ddinbych a hawlwyr. Diolchodd cynrychiolydd Cyngor Ar Bopeth Sir Ddinbych i'r aelodau am y gwahoddiad i'r cyfarfod a chynigiodd ei ddiolch i swyddogion am y gwaith partneriaeth parhaus.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r ffigyrau cyfan ynglŷn ag unigolion sy'n dal ar yr hen fudd-daliadau'n anodd eu cael. Eglurwyd bod nifer o wahanol adrannau'n darparu'r data. Roedd y ffigyrau'n gymhleth iawn.
- Cadarnhawyd bod cynnydd o tua 600 o hawliadau wedi bod gan unigolion oedd yn methu â gweithio yn ystod y pandemig Covid-19. Dywedodd y Swyddogion y gallai'r cynnydd yn nifer yr hawliadau fod am gymorth lefel isel ac nid y lwfans Credyd Cynhwysol llawn. Nodwyd bod nifer o unigolion weithiau yn cyflwyno hawliadau Credyd Cynhwysol ac weithiau ddim gan fod gwaith wedi bod yn dameidiog yn ystod y cyfnodau clo.
- Roedd cynnydd mewn achosion wedi'i nodi gan Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych. Roedd holl weithlu Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych wedi newid i weithio ar-lein ac o bell oherwydd y pandemig. Roeddent wedi mabwysiadu nifer o ddulliau o ymgysylltu ag unigolion. Roedd allgymorth cymunedol gan nifer o sefydliadau wedi cefnogi unigolion i allu derbyn cymorth os oeddent ei angen.
- Roedd gwarchodaeth i brydau ysgol a ddim wrth bontio wedi cael ei chyflwyno cyn y pandemig gan LlC. Roedd mewn grym i warchod y nifer bach iawn o blant a fyddai'n dal yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o dan yr hen fudd-daliadau ond nid o dan Gredyd Cynhwysol. Ers mis Ebrill 2019, byddai unigolion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu wedi bod yn derbyn prydau ysgol am ddim yn y gorffennol yn parhau i dderbyn y prydau ysgol am ddim pe bai sefyllfa ariannol y teulu'n newid. Dan ddeddfwriaeth Cymru, byddai'r warchodaeth bontio yn parhau i fod mewn grym tan fis Rhagfyr 2024.

Diolchodd yr Is-gadeirydd i'r holl swyddogion am yr ymateb manwl i bryderon yr Aelodau. Diolchwyd yn arbennig am yr holl waith roedd Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych wedi'i wneud hyd yma. Felly

***PENDERFYNWYD*** *bod yr Aelodau'n derbyn y cynnwys a'r wybodaeth o fewn yr adroddiad ar Gredyd Cynhwysol.*

## 8 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu adroddiad (a gylchredwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol –

- Cytunodd yr Aelodau i ohirio'r eitem ar 'Rôl Sir Ddinbych yn y Ddarpariaeth Cludiant Cyhoeddus a Theithio Llesol' tan fis Hydref 2021.
- Cadarnhawyd yr eitemau a restrwyd ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 11 Mawrth 2021.
- Cytunodd pob aelod i ohirio'r adroddiad ar 'Y Siarter Cydymffurfiaeth Cynllunio' tan ddechrau 2022.
- gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno unrhyw ffurflenni cynnig ynghylch pynciau i graffu arnynt.
- Roedd cylch gwaith drafft wedi'i gynnwys yn Atodiad 5 i'r grŵp tasg a gorffen i edrych ar reoli llifogydd a gweithio gyda thirfeddianwyr preifat i liniaru'r perygl o lifogydd difrifol. Byddai'r cylch gorchwyl yn cael ei gyflwyno i bob Grŵp Ardal Aelodau i ofyn am enwebiad gan Grŵp i wasanaethu ar y grŵp. Cadarnhawyd y byddai'n cymryd peth amser i'w sefydlu.
- Gofynnodd y Cynghorydd Merfyn Parry am i'r adroddiad ar effaith yr ysgol yn Rhewl ar gymunedau Rhewl a Llanynys gynnwys 'Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned'. Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Parry a'r Cydlynydd Craffu yn cysylltu â swyddogion i gael yr wybodaeth y cytunwyd arni. Cynigiodd Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Parth Cyhoeddus ei gymorth gyda llunio'r adroddiad hwn.

***PENDERFYNWYD***

*i). yn amodol ar y gwelliannau a'r ychwanegiadau i'r rhaglen gwaith i'r dyfodol ddrafft a gynigiwyd yn ystod y cyfarfod, cadarnhau rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor, a*

*ii). chymeradwyo'r cylch gorchwyl drafft ar gyfer y Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Perygl Llifogydd a Pherchnogion Glannau Afonydd.*

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 13.20 p.m.**